

Mae'ch sylwadau chi'n bwysig



Diolch i bawb a ymatebodd i'n hymgyngoriad yn ddiweddar.

Daeth llawer o bobl i'n digwyddiadau ac mae'r ymatebion manwl a gawsom wedi dangos i ni beth sy'n bwysig i chi. Yn neilltuol, rydych wedi dweud wrthym fod cymunedau, y dirwedd a thwristiaeth yn bwysig i chi. Fe wnawn ni gyhoeddi adroddiad ar yr ymateb yn yr haf yn cynnwys popeth a godwyd gennych chi a'n hymatebion ni.

Gofynnodd rhai ohonoch a ydi sylwadau o'r cymunedau lleol wir yn dylanwadu ar ein gwaith ac a ydym ni'n gwranddo arnoch chi.

Gallaf eich sicrhau ein bod yn darllen pob darn o ymateb ac yn ei ystyried yn ofalus. Ar sail yr hyn a ddywedoch chi wrthym, rydym am geisio dylunio ein cysylltiad mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod ein gwaith yn cael cyn lleied o effaith ag y bo modd. Gall hyn fod trwy ddewis llwybr yn ofalus, trwy osgoi nodweddion sy'n werthfawr i dwristiaeth a thrwy edrych yn ofalus ar y golygfeydd i gyfeiriad tai a phentrefi ac ohonynt.

Ond nid eich ymateb chi yw'r unig beth y mae'n rhaid i ni ei ystyried. Mae'n rhaid i ni wrando hefyd ar yr hyn y mae cyrff arbenigol sy'n gyfrifol am ecoleg, treftadaeth a'r amgylchedd yn ei ddweud wrthym. Rhaid i ni sicrhau hefyd bod y cysylltiad yn ddiogel ac yn ddibynadwy. Ac mae'n rhaid i'n cynlluniau ni gynnig gwerth am arian i'r bobl sy'n talu'r biliau.

Ein tasg ni yw cydbwysu'r holl ystyriaethau hyn. Felly rydym yn gwranddo ond, er mwyn sicrhau'r cydbwysedd anodd hwn, efallai na fyddwn bob amser yn gallu gwneud yn union fel y dymunwch.

Rydym wrthi'n datblygu ein cynlluniau ymhellach a byddwn yn ymgynghori eto ar ein cynlluniau manwl ddiwedd y flwyddyn. Bryd hynny, byddwn yn rhoi llawer rhagor o wybodaeth am yr hyn y bwriadwn ei wneud a'r hyn rydym yn gofyn am ymateb iddo. Mae'ch sylwadau chi wir yn bwysig a gobeithio y byddwch yn dal i gymryd rhan.

Matt Durham
Uwch Reolwr y Prosiect

A allwn ni roi rhagor o'r cysylltiad o dan y ddaear?

Rydym yn dal i weithio yn ardal Afon Menai ac efallai'ch bod wedi gweld rhai o'n timau yn yr ardal yn ddiweddar yn cynnal rhagor o arolygon.

Yn yr haf, fe allwn roi rhagor o wybodaeth i chi am y ffordd y byddwn yn rhoi'r cysylltiad o dan y ddaear yn yr ardal hon, yr offer y bydd arnom ei angen a lle y gallai fynd.

Mae llawer o bobl wedi dweud yr hoffent i ni roi'r cysylltiad o dan y ddaear ym mhobman. Mae hyn yn golygu peidio â defnyddio peilonau ychwanegol, ond mae pethau pwysig eraill i'w hystyried.

Mae'r ceblau tanddaear yn fawr iawn ac mae angen eu gwasgaru fel na fydd gwres yn crynhoi ac fel eu bod yn gweithio'n effeithlon. Yn ystod y gwaith adeiladu, byddai arnom angen lled gweithio, fel arfer hyd at 65m – tua mor llydan â chae pêl droed – ac mae angen i ni feddwl yn ofalus am effaith hynny.

O'u cymharu â pheilonau, mae ceblau tanddaear yn gostus iawn – fel rheol, maent yn costio degau o filiynau o bunnoedd yn fwy am bob cilometr. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau bod ein cynlluniau'n cynnig gwerth am arian oherwydd mae ein holl wariant ni'n cael ei basio ymlaen i bawb ohonom trwy ein biliau ynni.

Ar hyn o bryd, rydym yn canolbwyntio ar ddewis llwybr ar gyfer y cysylltiad newydd ac rydym yn cadw'r holl ystyriaethau pwysig hyn mewn cof.

Cystadleuaeth robotiaid i ysgolion ar y ffordd

Mae disgyblion mewn ysgolion ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd yn paratoi ar gyfer cystadleuaeth roboteg VEX a gynhelir yn nes ymlaen eleni. Mae'n rhan o'n gwaith i helpu plant ysgol i ddysgu sgiliau newydd cyffrous ym maes peirianeg a thechnoleg.

Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol er mwyn eu helpu i gael gyrfaoedd llwyddiannus gyda chyflogwyr fel National Grid.

Rydym wedi cael ein hysbrydoli wrth weld pobl ifanc yn ymddiddori mewn peirianeg mewn ffeiriau gyrfaoedd yn Ysgol Bodedern a Thy Menai yn ddiweddar.



Cadwch mewn cysylltiad

Gallwch roi'ch enw ar ein gwefan er mwyn cael y newyddion diweddaraf. Neu gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd isod:



www.nationalgrid.com/cysylltiadgogleddcymru



nationalgrid@cysylltiadgogleddcymru.com



Rhadffôn 0800 990 3567
9am - 5pm, Llundun - Gwener



FREEPOST NATIONAL GRID
NW CONNECTION